


# Cwricwla Lleol 16-18

Gweithio gyda'n gilydd i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

## Croeso a threfniadau ymarferol

- Defnyddiwch y nodwedd holi ac ateb drwy gydol y weminar os bydd cwestiynau'n codi.
- Byddwn yn casglu'r holl gwestiynau ac yn rhoi ymatebion ffurfiol ar ôl y sesiwn er mwyn i ni allu gwneud y gorau o'n hamser gyda'n gilydd heddiw.
- Rydym yn croesawu cwestiynau yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- Caiff ymatebion eu rhoi'n ddwyieithog a'u rhannu â phawb sy'n bresennol ar ôl y weminar.
- I'r rhai a hoffai ddilyn y cyflwyniad yn Gymraeg, cafodd sleidiau Cymraeg eu rhannu drwy e-bost cyn y sesiwn.



# Cwricwla Lleol 16-18

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

## Dyletswyddau Statudol, Arweinyddiaeth y System a Rôl Medr

Bydd y sesiwn hon yn ymdrin â'r canlynol:

- Fframwaith deddfwriaethol a dyletswyddau statudol
- Rôl Medr yn y gwaith o lunio cwricwla lleol
- Rolau awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau addysg bellach
- Trefniadau cwricwla lleol ar waith
- Y berthynas ag ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth
- Y camau nesaf a'r amserlen ar gyfer rhoi'r cwricwla ar waith

## Dolenni Defnyddiol

**Canllawiau Drafft ar Gwricwla Lleol 16-18 (Dolen wedi'i rhannu yn y sgwrs Teams)**

*Noder: Mae canllawiau polisi terfynol Llywodraeth Cymru wedi cael eu rhannu â'r cyfranogwyr cyn y sesiwn.*



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Amcanion

Erbyn diwedd y sesiwn hon, bydd y cyfranogwyr yn deall y canlynol:

- The legislative framework underpinning 16-18 local curricula
- Y fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i gwricwla lleol 16-18
- Pam y cafodd y cyfrifoldeb ei drosglwyddo i Medr
- Rolau gwahanol ond cysylltiedig partneriaid allweddol
- Y berthynas rhwng cwricwla lleol ac ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth
- Beth mae hyn yn ei olygu i benderfyniadau cynllunio awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

# Y Fframwaith Statudol



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Pam Mae Cwricwla Lleol yn Bodoli

6

## Yr Hawl i Ddysgu yn ôl y Gyfraith

### Yr Egwyddor Graidd

- Dylai pob person ifanc allu manteisio ar amrywiaeth eang a chytbwys o gyfleoedd dysgu ôl-16, ble bynnag y maent yn byw.
- Mae cwricwla lleol yn bodoli er mwyn:
- Cefnogi'r hawl i ddysgu
- Cael eu llywio gan lais y dysgwyr a'r galw ymhlith dysgwyr
- Helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â llwybrau ar gyfer y dyfodol
- •Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant
- Cynnig mynediad at lwybrau academiaidd a galwedigaethol
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfrwng Cymraeg
- Ymateb i anghenion lleol o ran sgiliau a'r gweithlu
- Cefnogi cynhwysiant a chyfle cyfartal

Nid dim ond proses weinyddol yw cwricwla lleol. Maent yn bodoli er mwyn sicrhau'r hawl i ddysgu.

# Y Daith Ddeddfwriaethol

## Deddf Dysgu a Sgiliau 2000

Mae'n rhoi'r fframwaith ehangach ar gyfer cynllunio addysg ôl-16.

**Mae'n pennu'r hawl i ddysgu a gofynion ar gyfer cynllunio cwricwla.**

## Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

Creodd Medr a throsglwyddodd gyfrifoldebau a oedd yn cael eu harfer yn flaenorol gan Weinidogion Cymru.

Creodd y fframwaith ar gyfer system addysg drydyddol gydlynol.

**Mae'n trosglwyddo swyddogaethau perthnasol oddi wrth Weinidogion Cymru i Medr.**

## Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

ennodd yr hawl i ddysgu a threfniadau ar gyfer cwricwla lleol.

Diffiniodd yr hawl i ddysgu.

Mae'n gosod dyletswyddau ar bartneriaid i gynig cwricwlwm eang a chytbwys.

**Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach gydweithio â'i gilydd i lunio cwricwla lleol.**

## Ebrill 2026

Trosglwyddwyd swyddogaethau allweddol a arferid yn flaenorol gan Weinidogion Cymru

# Beth sy'n Ofynnol gan y Mesur

## Dyletswyddau Allweddol o Dan Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

Rhaid i Awdurdodau Lleol, Ysgolion a Cholegau Wneud y Canlynol:

### Cydweithio a'r Hawl i Ddysgu

- Bod yn rhan o drefniadau cydweithio ar gyfer cynllunio a chyflwyno cwricwla lleol
- Cydweithio ag awdurdodau lleol, ysgolion, colegau a Medr i gefnogi trefniadau cwricwla lleol
- Cymryd pob cam rhesymol i gynyddu argaeledd cyrsiau sydd wedi'u cynnwys o fewn y cwricwla lleol i'r eithaf
- Cefnogi'r hawl i ddysgu drwy gynnig mynediad at amrywiaeth eang o opsiynau addysgol a llwybrau cynnydd ar gyfer dysgwyr 16-18 oed

### Dyletswyddau o ran y Gymraeg

- Hyrwyddo'r Gymraeg wrth lunio cwricwla lleol
- Hyrwyddo llwybrau cynnydd cyfrwng Cymraeg a chynyddu mynediad at gyfleoedd i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- Cefnogi cyfranogiad mewn addysg Gymraeg a hyrwyddo llwybrau cynnydd cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr

Mae rhagor o fanylion am ddyletswyddau'r sector i'w gweld yn Adran 2 o'r Canllawiau Drafft ar Gwricwla Lleol 16-18..

### Dylai Cwricwla Lleol: Reflect learner demand

- Adlewyrchu'r galw ymhlith dysgwyr
- Cefnogi llwybrau cynnydd
- Ystyried gwybodaeth am y farchnad lafur
- Cynnwys opsiynau academiaidd a galwedigaethol
- Cefnogi dysgwyr ag ADY
- Hyrwyddo darpariaeth gynaliadwy

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

# Rolau Statudol a'u Manteision



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Rolau Statudol ym Mhob Rhan o'r System

10

## Medr

- Llunio a goruchwyllo cwricwla lleol
- Sicrwydd
- Tystiolaeth a dadansoddi
- Arweinyddiaeth y system

## Ysgolion

- Cynrychioli'r galw ymhlith dysgwyr a'u dyheadau mewn addysg drydyddol
- Cyflwyno'r ddarpariaeth y cytunwyd arni
- Gweithredu fel partner cyfartal ar gyfer cynllunio cwricwla lleol a chadw cyfrifoldeb am benderfynu ar eu cynnig cwricwlwm eu hunain
- Cefnogi dewis ar sail gwybodaeth i ddysgwyr
- Gweithio gyda darparwyr eraill i ehangu cyfleoedd

## Sefydliadau Addysg Bellach

- Gweithredu fel partner cyfartal ar gyfer cynllunio cwricwla lleol a phenderfynu ar eu cynnig cwricwlwm a gwneud eu penderfyniadau buddsoddi eu hunain
- Cyfrannu gwybodaeth am sgiliau a'r galw ymhlith cyflogwyr
- Cynnig llwybrau academiaidd a thechnegol arbenigol
- Cymryd rhan mewn trefniadau cynllunio cydweithredol
- Cynnig darpariaeth sy'n cyfrannu at yr hawl i ddysgu

## Awdurdodau Lleol

- Cynnull trafodaethau cynllunio lleol
- Cyfrannu gwybodaeth am y boblogaeth, y galw, a blaenoriaethau lleol
- Canfod anghenion a blaenoriaethau lleol
- Tynnu sylw at fylchau, dyblygu a chyfleoedd i gydweithio
- Helpu i gynllunio a datblygu cynigion ar gyfer cwricwla lleol

# Manteision i Ddysgwyr, Ysgolion, Colegau ac Awdurdodau Lleol

## I Ddysgwyr

- Dewis ehangach o gyrsiau
- Llwybrau cynnydd mwy cadarn
- Gwell mynediad at lwybrau cynhwysol
- Gwell amlygrwydd i gyfleoedd

## I Ysgolion

- Mwy o ddealltwriaeth o lwybrau dysgwyr
- Gwell tystiolaeth ar gyfer cynllunio cwricwla
- Cyfleoedd mwy cadarn i gydweithio
- Gwell dealltwriaeth o'r galw a'r cyfleoedd yn lleol

## I Golegau Addysg Bellach

- Gwell amlygrwydd i ddarpariaeth ledled ardal
- Gwybodaeth fwy cyfoethog am y galw ymhlith dysgwyr
- Trafodaethau strategol mwy cadarn gyda phartneriaid
- Cyfleoedd i arddangos darpariaeth arbenigol

## I Awdurdodau Lleol

- Golwg gynhwysfawr ar ddarpariaeth ôl-16
- Gallu mwy cadarn i gynllunio'n strategol
- Gwell tystiolaeth ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Gwell dealltwriaeth o fylchau a dyblygu

## I Gymru

- Mwy o hyder bod yr hawl i ddysgu'n cael ei bodloni
- Gwell defnydd o adnoddau
- Cydweithio mwy cadarn
- Gwell tystiolaeth ar gyfer cynllunio at y dyfodol

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

# Llunio Cwricwla Lleol ar Waith



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Beth yw cwricwlwm lleol?

Y cynnig dysgu a rennir sydd ar gael i ddysgwyr ledled ardal leol yw cwricwlwm lleol. Caiff ei lunio drwy gydweithio lleol rhwng ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a Medr er mwyn sicrhau mynediad at amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu academiaidd a galwedigaethol, ble bynnag mae'r dysgwyr yn astudio.



## Nid yw cwricwlwm lleol yn golygu:

- Cwricwlwm un sefydliad unigol
- Rhestr o gyrsiau a gyfarwyddir gan Medr
- Adnodd ar gyfer ad-drefnu ysgolion
- Rhywbeth i ddisodli penderfyniadau lleol

# Sut y bydd y cylch 1af yn gweithio?

## Cam 1: Pennu'r Llinell Sylfaen ar gyfer (2027/28)

- Bydd cynllunwyr cwricwla a phartneriaid yn cydweithio â'i gilydd i lywio:
- Cynnig cwricwlwm ar gyfer 2027/28
- Y galw ymhlith dysgwyr a llais y dysgwr
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Trefniadau cydweithio



## Cam 2: Adolygiad Medr

Bydd Medr yn gwneud y canlynol:

- Dadansoddi'r cwricwla a gyflwynir
- Adolygu'r ehangder a'r mynediad i ddysgwyr
- Canfod cryfderau
- Canfod bylchau a chyfleoedd



## Cam 3: Trafodaethau lleol gyda chynllunwyr cwricwla a phartneriaid

Bydd Medr yn gwneud y canlynol:

- Rhannu dadansoddiad a'r canfyddiadau allweddol
- Trafod cryfderau a meysydd i'w datblygu
- Gofyn am ddirnadaeth a her leol
- Ystyried cyfleoedd i atgyfnerthu'r hawl i ddysgu
- Archwilio atebion cydweithredol ar gyfer cau'r bylchau a nodwyd
- Cytuno ar y camau nesaf gyda phartneriaid lleol



## Cam 4: Mireinio (2028/29)

Bydd partneriaid yn gwneud y canlynol:

- Mireinio trefniadau cwricwla lleol gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd.

# Cefnogi'r Gwaith Drwy Ddangosfyrddau Gwybodaeth

## Datblygu Sylfaen Dystiolaeth a Rennir

Er mwyn cael cwricwlwm lleol cadarn, mae angen dealltwriaeth gyffredin o ddarpariaeth, galw a chyfle.

Bydd Medr yn datblygu dangosfyrddau gwybodaeth i gefnogi'r canlynol:

- Amlygrwydd i ddarpariaeth arfaethedig ledled Cymru
- Dealltwriaeth o ehangder cwricwla rhwng meysydd dysgu
- Dadansoddiad o gyfranogiad a chynnydd dysgwyr
- Cynlluniau a mynediad cyfrwng Cymraeg
- Canfod bylchau, achosion o orgyffwrdd a chyfleoedd
- Trafodaethau lleol a chenedlaethol sy'n fwy seiliedig ar wybodaeth

### Diben y Dangosfwrdd

- Ni fwriedir i'r dangosfwrdd wneud y canlynol:
- Rhestru darparwyr mewn unrhyw fath o drefn
- Creu tabl cynghrair ar sail perfformiad
- Pennu cynigion cwricwlwm darparwyr unigol
- Ysgogi prosesau ad-drefnu sefydliadol

### Y Diben yw:

- Ategu sgysiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Gwella dealltwriaeth o drefniadau cwricwla lleol
- Galluogi cydweithio mwy cadarn
- Helpu Medr i gyflawni ei ddyletswyddau statudol

**Bydd sylfaen dystiolaeth a rennir yn helpu i wneud gwell penderfyniadau ar gyfer dysgwyr.**

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

# Ad-drefnu Darpariaeth Chweched Dosbarth



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Ail Gyfrifoldeb Statudol

17

## Cynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022) Atodlen 4\_paragraff 4

- Mae Pennod 3A yn rhoi pwerau ffurfiol i Medr gychwyn, ystyried a chefnogi cynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth
- Mae'n berthnasol i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac ysgolion gwirfoddol/sefydledig Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn:
- I awdurdod lleol gyflwyno cynigion ar gyfer sefydlu neu gau ysgol sy'n cynnig darpariaeth chweched dosbarth yn unig, neu ehangu neu leihau nifer y lleoedd chweched dosbarth sydd eisoes yn bodoli
- I gorff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig gynnig newidiadau i'w darpariaeth chweched dosbarth
- Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am y gymeradwyaeth derfynol mewn achosion cynhennus o hyd
- Mae dosbarthiadau chwech bellach yn rhan o system addysg drydyddol genedlaethol a gaiff ei chynllunio'n strategol

# Ail Gyfrifoldeb Statudol

## Rôl Medr fel ymgynghorai statudol

- Pennod 3A o'r Ddeddf, Adran 63D(2)
- Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig newidiadau i ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau ac ysgolion gwirfoddol/sefydledig ymgynghori â Medr wrth gynnig gwneud y canlynol:
- Sefydlu neu gau dosbarthiadau chwech
- Cynyddu neu leihau nifer lleoedd chweched dosbarth
- Newid dynodiad iaith
- Rôl Medr yw asesu effaith bosibl cynigion sy'n rhan orfodol o'r broses gwneud penderfyniadau

# Y berthynas ag ad-drefnu ysgolion

Mae llunio cwricwla lleol ac ad-drefnu ysgolion yn brosesau statudol ar wahân.

## Cynllunio Cwricwla Lleol

Mae hyn yn canolbwyntio ar:

- Yr hawl i ddysgu
- Mynediad at gwricwla
- Cydweithio
- Cynllunio

## Ad-drefnu Ysgolion

- Mae hyn yn canolbwyntio ar:
- Newid strwythurol
- Ymgynghoriad statudol
- Prosesau gwneud penderfyniadau ffurfiol

## Sylfaen Dystiolaeth a Rennir

Mae'r naill a'r llall yn seiliedig ar:

- Y galw ymhlith dysgwyr
- Data ar gynnydd
- Cyfleoedd cyfrwng Cymraeg
- Anghenion cymunedau

Gall tystiolaeth o gwricwla lywio trafodaethau strategol lleol, ond ni fydd yn arwain yn awtomatig at gynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

# Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil  
Commission for Tertiary Education and Research

# Edrych Tua'r Dyfodol



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Datblygu Trefniadau Gyda'n Gilydd

**2026/27**  
**Pennu'r Llinell Sylfaen**

**2027/28**  
**Datblygu a Chydlunio**

**2028/29 Rhoi**  
**ar waith yn llawn**

Dosbarthu templedi cynllunio

– **27 Tach 2026**

Dychwelyd templedi wedi'u cwblhau i Medr

– **19 Chwef 2027**

Gwaith dadansoddi gan Medr

– **Maw 2027**

Trafodaethau cychwynnol â chynllunwyr cwricwla lleol

– **Ebr 2027**

Llyw Cym yn cyhoeddi canllawiau polisi 16-18 ar gyfer Medr

mgysylltu â'r sector

Ymgynghoriad ar bolisi 16-18  
MedrDatblygu canllawiau gweithredol

Mireinio'r trefniadau

Cwricwla lleol ar waith yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt

Monitro a chymorth parhaus

# Negeseuon Allweddol

## Pum Peth i'w Cofio

1. Y Dysgwr – mae cwricwla lleol yn bodoli i gefnogi'r hawl i ddysgu, nid strwythurau sefydliadol.
2. Gan Medr mae'r cyfrifoldeb erbyn hyn – Medr sydd â'r cyfrifoldeb statudol am wneud y canlynol:
  - Llunio cwricwla lleol
  - Hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg
  - Cefnogi'r hawl i ddysgu
  - Rhoi sicrwydd a goruchwyliaeth

*Ond ni all Medr wneud hyn heb bartneriaid lleol.*

3. Caiff cwricwla lleol eu llunio drwy bartneriaeth – mae gan awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach i gyd rôl allweddol.
  - Mae awdurdodau lleol yn cyfrannu gwybodaeth leol ac yn hwyluso ymgysylltu lleol
  - Mae ysgolion yn cyfrannu dirnadaeth o ddysgwyr ac arbenigedd ym maes cyflwyno
  - Mae sefydliadau addysg bellach yn cyfrannu arbenigedd ym meysydd cwricwla a sgiliau

*Ni all yr un sefydliad fodloni'r hawl i ddysgu ar ei ben ei hun.*

Nid ad-drefnu ysgolion yw hyn – mae cynllunio cwricwla lleol ac ad-drefnu yn brosesau statudol ar wahân.

5. Dealltwriaeth fydd y nod ym Mlwyddyn 1 – ein ffocws cychwynnol fydd: Pennu llinell sylfaen; deall y cynnig cwricwlwm yn lleol; datblygu sylfaen dystiolaeth a rennir; a chanfod cryfderau, bylchau a chyfleoedd.

Yr amcan yw cefnogi gwelliant parhaus drwy gasglu tystiolaeth a chydweithio.

# Cysylltwch â Ni

23

- Cysylltwch â: [performanceandcoordination@medr.cymru](mailto:performanceandcoordination@medr.cymru)
- **Carly Davies** (Pennaeth Perfformiad a Chydlynw): [Carly.Davies@medr.cymru](mailto:Carly.Davies@medr.cymru)
- **Darren Phillips** (Uwch-reolwr Perfformiad Darparwyr): [Darren.Phillips@medr.cymru](mailto:Darren.Phillips@medr.cymru)
- **Hannah Carlson** (Rheolwr Perfformiad Darparwyr): [Hannah.Carlson@medr.cymru](mailto:Hannah.Carlson@medr.cymru)
- **Tracy Jones** (Rheolwr Perfformiad Darparwyr): [Tracy.Jones@medr.cymru](mailto:Tracy.Jones@medr.cymru)